Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Yr Adran Orthopteg

# Syndrom Gwrthdyniad Duane

# Gwybodaeth i gleifion

---

**Syndrom Gwrthdyniad Duane**

## Beth yw Syndrom Gwrthdyniad Duane?

Problem symud llygad yw Syndrom Gwrthdyniad Duane a elwir hefyd yn Syndrom Duane. Mae un neu'r ddau lygad yn ei chael hi'n anodd symud ar draws. Os bydd y ddau lygad wedi'u haffeithio, fel arfer mae'r cwmpas cyfyngedig o symudiad yn fwy amlwg mewn un llygad na'r llall.

Mae'r Syndrom Duane bob amser yno ers geni'r plentyn ond gall fod yn anodd ei ganfod mewn babanod ifanc iawn. Fel arfer, gellir sylwi wrth i'r plentyn fod yn fwy gweledol ymwybodol.

## Nodweddion

- Gallu cyfyngedig i symud y llygad allan a/ neu i mewn. Fel arfer y symudiad allan sy'n cael ei affeithio fwyaf.
- Mae'n bosibl y bydd y person yn troi ei wyneb at yr ochr i gadw'r llygaid wedi'u halinio. Mae hyn er mwyn gallu defnyddio'r llygaid gyda'i gilydd fel pâr i ddatblygu golwg 3D.
- Mae'n bosibl y bydd y llygad yn tynnu'n ôl ychydig i mewn i soced y llygad wrth geisio symud.
- Gall lleoliad yr amrant newid wrth i'r llygad dynnu'n ôl. Yn nodweddiadol, mae'r amrannau fel petaen nhw'n culhau wrth i'r llygad symud i mewn ac yn ymledu wrth i'r llygad symud allan.

## Achosion

Mae 6 chyhyr sy'n symud pob llygad. Mae'r 'Rectws Meddygol' yn symud y llygad i mewn a'r 'Rectws Ochrol' yn symud y llygad allan.
Mae nerfau'n anfon negeseuon o'r ymennydd i gyhyrau'r llygaid i ddweud wrthyn nhw weithio. Yn Syndrom Duane, mae'r nerfau wedi'u 'cam-wifro' fel bod y ddau gyhyr gyferbyn yn cael eu gwefru gan yr un nerf.

Pan fydd y nerf yn anfon arwydd, mae'r ddau gyhyr yn ceisio gweithio ar yr un pryd. Mae hyn yn achosi i'r llygad gael cwmpas cyfyngedig o symudiad. Gall cyhyrau cul anelastig sydd fel arfer wedi'u cysylltu i'r llygad hefyd achosi Syndrom Duane.

## Triniaeth

Nid oes angen triniaeth ar y mwyafrif o bobl sy'n dioddef gan Syndrom Duane gan eu bod yn gweld yn iawn ac nid oes ganddyn nhw unrhyw symptom. Weithiau mae angen sbectol i wella eu golwg. Yn aml, mae pobl â Syndrom Duane yn cadw eu

llygaid yn syth ac yn cael golwg 3D da drwy droi eu hwyneb ychydig.  Fel oedolion, maen nhw fel arfer yn fwy ymwybodol o’u symudiadau llygaid cyfyngedig a gallan nhw eu cuddio drwy symud eu pen yn lle eu llygaid.

Dim ond mewn ychydig o achosion mae angen llawfeddygaeth.  Ni fydden ni’n ystyried llawfeddygaeth i ail-leoli’r llygaid oni bai:

- Bod y tro yn y llygaid yn gwaethygu, gan ei gwneud hi’n anodd parhau i’w defnyddio gyda’i gilydd.  Gall hyn arwain at symptomau straen llygad a phen tost os na fydd yn cael ei drin.
- Bod y tro yn y llygad yn wael yn gosmetig.  Os nad yw’r llygaid erioed wedi gweithio gyda’i gilydd ac nad yw’r person wedi datblygu unrhyw olwg 3D, gallen ni o hyd ystyried llawfeddygaeth i wella’r tro yn eu llygaid wrth edrych yn syth ymlaen.
- Bod y person yn defnyddio safle pen hynod anghysurus i gadw ei lygaid yn syth.
- Bod y llygad yn tynnu’n ôl yn ddramatig i mewn i soced y llygad wrth symud y llygad ar draws.

Mae’n bosibl na fydd llawfeddygaeth yn gwella symudiad cyfyngedig y llygaid.  Hyd yn oed os bydd cyhyrau’r llygaid wedi’u hail-osod, mae ‘cam-wefru’r’ nerfau’n golygu y bydd y cyhyrau cyferbyn yn dal i dderbyn signalau o’r ymennydd ar yr un amser. Bwriad llawfeddygaeth yw lleddfu symptomau ar gyfer y mater o edrych yn syth ymlaen yn unig.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**